

LLAIS Y LLYWODRAETHWYR

YSGOL GYMUNEDOL BANCFFOSFELEN

Bancffosfelen, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5DR

Adroddiad Blynyddol i Rieni 2025 – 2026

e-bost: admin@bancffosfelen.ysgolccc.cymru

ffôn: 01269 870272

“Cyd-baratoi heddiw, at ddyfodol yfory.”

GAIR GAN Y GADEIRYDD:

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Wrth i ni ddechrau blwyddyn academiaidd arall, hoffwn gydnabod arweinyddiaeth barhaus ein Pennaeth, Mr Thomas Gullick, wrth iddo arwain yr ysgol gydag ymrwymiad ac ymroddiad. Mae ei brofiad, ei weledigaeth a'i arweinyddiaeth gref yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, ac edrychwn ymlaen yn hyderus at y dyfodol dan ei arweiniad.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ffarwelio â Miss Shannon Hopkins, Miss Celyn Rees a'n hathro Addysg Gorfforol, Mr Josh Grotta, a diolch o galon iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod eu cyfnod gyda ni. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu swyddi newydd. Rydym hefyd yn croesawu'n gynnes ein haelodau newydd o staff; Mrs Siân Williams, Mrs Sarah Reynolds a Mr Ilan Phillips (Ymarfer Corff), rydym wrth ein boddau eu bod wedi ymuno â'n teulu ysgol.

Mae'n bleser mawr gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/2026. Er bod heriau wedi codi, bu llawer o lwyddiannau a phrofiadau gwerthfawr hefyd, ac rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae ein disgyblion wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, ymweliadau a phrofiadau eleni. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd ymweliadau â Fferm Ffoli, Theatr Lyric, Techniquet, Llangrannog gyda Blynyddoedd 5 a 6, ac ymweliad hynod ddiddorol â Llundain gyda Blwyddyn 6. Roedd y cyfleoedd hyn yn caniatáu i'r disgyblion ehangu eu gorwelion, datblygu eu hannibyniaeth a chreu atgofion gwerthfawr y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Cafodd y disgyblion hefyd gyfle i gymryd rhan mewn nifer o brofiadau a digwyddiadau arbennig, gan gynnwys Diwrnod Chwaraeon Mynydd Mawr, y Proms Iau, Eisteddfod Bancffosfelen a'r Sioe Nadolig. Roedd eu brwdfrydedd, eu hyder a'u parodrwydd i gymryd rhan yn amlwg drwy gydol y flwyddyn, ac roedd yn bleser gweld eu doniau a'u hymroddiad ar waith.

Mae adeilad ein hysgol bellach bron yn 150 oed, ac mae cynnal adeilad o'r oedran hwn yn cyflwyno heriau penodol. Serch hynny, caiff yr heriau hyn eu rheoli'n ofalus ac nid ydynt yn amharu ar y cyfleoedd gwyb sydd ar gael i'n disgyblion. Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn



parhau i fod wrth galon ein hysgol, ac rydym yn falch o'r amgylchedd dysgu gofalgwr a chefnogol y mae ein staff yn ei greu bob dydd.

Hoffem hefyd estyn ein diolch diffuant i Gymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion di-flino i gefnogi'r ysgol. Mae eu gwaith caled a'u hymroddiad yn gwneud cyfraniad sylweddol at brofiadau ein disgyblion, gan helpu i ddarparu digwyddiadau a chyfleoedd cofiadwy i blant a'u teuluoedd, yn ogystal â chodi arian gwerthfawr i'r ysgol a dod â'r gymuned gyfan ynghyd. Mae digwyddiadau wedi cynnwys noson gwis a bingo, noson ffilm, disgos a ffair Nadolig.

Mae ein diolch mwyaf dwys yn mynd i'r holl staff addysgu a staff cymorth am eu brwdfrydedd, eu hangerdd a'u hymroddiad wrth lunio dyfodol ein disgyblion. Gwerthfawrogi eich ymdrechion amhrisiadwy yn fawr iawn! Rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i chi, ein rhieni a'n gwarcheidwaid, am eich cefnogaeth a'ch cyfranogiad parhaus, sy'n chwarae rhan mor bwysig yn llwyddiant ein gymuned ysgol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r llywodraethwyr am eu hymrwymiad diwyro a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

Mae Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn parhau i ymdrechu am ragoriaeth a chydraddoldeb. Yng nghanol y gymuned, mae'r ysgol yn meithrin amgylchedd gofalgwr, chefnogol a chroesawgar lle mae addysg, lles a diogelwch ein disgyblion yn parhau i fod yn flaenoriaethau pennaf. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ysbrydoli i ddod yn ddysgwyr gydol oes.

Cofion gorau,

Mr Andrew Barlow

GAIR GAN Y PENNAETH:

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn academaidd ddiwethaf, hoffaf fynegi fy malchder yn y cynnydd, yr ymroddiad a'r llwyddiannau a welwyd ar draws Ysgol Bancffosfelen. Bu'n flwyddyn brysur a llwyddiannus, gyda'n disgyblion yn parhau i ddatblygu fel dysgwyr hyderus, caredig a brwdfrydig.

Hoffaf ddiolch yn ddiffuant i'n staff am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u gofal dyddiol tuag at ein plant. Diolch hefyd i'n disgyblion am eu hagwedd gadarnhaol a'u hymdrechion parhaus, ac i rieni a gofalgwyr am eu cefnogaeth werthfawr drwy gydol y flwyddyn.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) ac i gymuned ehangach Bancffosfelen am eu cefnogaeth hael a'u cyfraniad parhaus i fywyd yr ysgol.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn gyffrous am y flwyddyn sydd o'n blaenau ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio er mwyn sicrhau'r profiadau a'r cyfleoedd gorau i'n holl ddisgyblion.

Diolch i chi gyd am fod yn rhan mor bwysig o gymuned arbennig Ysgol Bancffosfelen.

Cofion gorau,

Mr Thomas Gullick



AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL

Enw	Math o Lywodraethwr	Tymor
Mr Andrew Barlow Cadeirydd	RHIANT	2025 – 2029
Mrs Davinia Davies Is-Gadeirydd	RHIANT	2022 – 2026
Mr Thomas Gullick	PENNAETH	-
Mrs Amanda Rees	ATHRO/RAWES	2022 – 2026
Mr Gareth Harries	CYMUNEDOL	2022 – 2026
Mr Aled Davies	CYMUNEDOL	2025 – 2029
Cyng. Emyr Evans	CYMUNEDOL YCHWANEGOL	2022 – 2026
Mr Julian Jones	AWDURDOD LLEOL	2022 – 2026
Cyng. Liam Bowen	AWDURDOD LLEOL	2025 – 2029
Mrs Elizabeth Hopkins Mrs Martha Davies	RHIANT	2021 – 2025 2026 - 2030

Clerc y Corff Llywodraethol:

Mrs Miriam Evans – SWYDDOG CEFNOGI'R YSGOL

Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, Bancffosfelen, Llanelli, SA15 5DR

admin@bancffosfelen.ysgolccc.cymru

STAFF YR YSGOL 2025 – 2026

Pennaeth:

Mr Thomas Gullick (0.5)

Cydlynnydd ADY:

Mr Thomas Gullick

Athrawon:

Mrs Amanda Rees
Mrs Susan Simpson
Mr Josh Grotta (CPA)

Swyddog Cefnogi'r Ysgol:

Mrs Miriam Evans

Cynorthwyywyr:

Miss Shannon Hopkins
Miss Celyn Rees

Gofalwr:

Mr Roger Selwood

Glanhawraig:

Mrs Siân Williams

Staff Arlwyo:

Miss Donna Evans (Cogyddes)
Miss Amy Hopkins (Clwb Brecwast)

TREFNIDIAETH DOSBARTHIAU

Dosbarth	Athrawon	Nifer o ddisgyblion
Lili Wen Fach	Mrs Amanda Rees Miss Shannon Hopkins	21
Clychau'r Gôg	Mrs Susan Simpson Miss Celyn Rees	29
		50

YSTADEGAU PRESENOLDEB

Presenoldeb am y flwyddyn 2025 –2026 oedd **89.28%**. Byddwn yn cyfeirio unrhyw blentyn sydd a phresenoldeb o dan 80% i Swyddog Lles Ysgolion yr Awdurdod Leol. Gofynnwn i rieni/ warcheidwaid gysylltu gyda'r ysgol i nodi absenoldeb plentyn (trwy e-bost neu alwad ffôn) neu fyddwn yn ystyried yr absenoldeb yn anawdurdodedig.

Presenoldeb	Absenoldeb Awdurdodedig	Absenoldeb Anawdurdodedig
89.28%	9.81%	0.91%

POLISI IAITH

Ysgol gyfrwng Gymraeg ydy Ysgol Gymunedol Bancffosfelen. Mae disgyblion yn cael eu hymdrochi yn yr iaith Gymraeg wrth ddechrau eu yn y Meithrin. Y prif iaith ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a gwersi ar draws yr ysgol ydy Cymraeg. Er hyn, dysgir Saesneg yng ngwersi o Flwyddyn 3 i fyny ac mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn sicrhau fod disgyblion â chyrhaeddiad uchel yn y ddwy iaith erbyn diwedd Blwyddyn 6. Mae'r Pennaeth a Staff yn cwrdd gyda darpar rieni cyn i'w plant ddechrau gan esbonio manteision dwyieithrwydd. Atgyfnerthir hyn gan yr holl staff yn ystod cyfarfodydd gyda rhieni. Darperir gohebiaeth ddwyieithog i bawb.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae darpariaeth ADY yr ysgol yn un priodol sy'n cyflawni gofynion y Cod Ymarfer Newydd. Yn 2025 - 2026 roedd 5 o ddisgyblion ar y gofrestr. Rydym yn awyddus i glustnodi unrhyw anawsterau sydd gan y plant cyn gynted ag y bo modd, ac ymateb iddynt yn y ffordd mwyaf priodol. Ystyrir bod ymyrraeth gynnar yn angenrheidiol i sicrhau diwallu anawsterau ag anghenion y plentyn unigol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod dosbarthiadau'n gynhwysol a bod addasiadau rhesymegol yn cael eu gwneud er mwyn cwrdd ag anghenion unigolion. Mae gan bob disgybl broffil un tudalen.

Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2025 – 2026 oedd Mr Thomas Gullick.

AMDDIFFYN PLANT

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol a'r polisi Amddiffyn Plant yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant am unrhyw ddiffygion/ peryglon a phryderon yn syth. Mae'r ddau bolisi ar gael i'w darllen.

Swyddogion Diogelu yr ysgol oedd: Mr Thomas Gullick, Mrs Amanda Rees a Mrs Susan Simpson

Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddiogelu oedd: Mrs Davinia Davies

DIWRNOD YSGOL

DYSGU SYLFAEN

9:00 - 12:00
12:00 - 1:00 (CINIO)
1:00 - 3:10

BLYNYDDOEDD 3 I 6

9:00 - 12:00
12:00 - 1:00 (CINIO)
1:00 - 3:20

IECHYD A DIOGELWCH

Caiff yr adeiladau eu cadw a'u gynnal dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r gwasanaeth glanhau. Mae cyfleusterau, megis toiledau yn cael eu cadw'n lân gan lânheuwy'r ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o blant yn yr ysgol.

PROSPECTWS YR YSGOL

Gwelir copi o brospectws yr ysgol yn swyddfa'r ysgol ynghyd â nifer o ddogfennaeth a pholisïau eraill.

CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol, sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n deillio o'r argymhelliad a wnaed gan ymweliadau cefnogi â gweithdrefnau hunan arfarnu'r ffederasiwn. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â dadansoddiad o ddata mewnol a chanlyniadau diwedd cyfnod allweddol. Caiff y targedau eu gwerthuso'n rheolaidd yn erbyn cerrig milltir sydd wedi eu gosod.

Blaenoriaethau 2025 – 2026	
1	Cryfhau sgiliau llafaredd Cymraeg bron bob un disgybl er mwyn codi safonau ysgrifennu annibynnol ar draws yr ysgol.
2	Datblygu sgiliau mathemateg pen bron bob un disgybl er mwyn sicrhau bod ganddynt sylfaen rhifyddol effeithiol.
3	Parhau i fireinio cwricwlwm yr ysgol gyda ffocws ar ein darpariaeth gyflawn.
4	Cryfhau systemau asesu, tracio a rhoi adborth effeithiol er mwyn cefnogi'r disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.

Blaenoriaethau 2026 – 2027	
1	Cryfhau sgiliau llafar a thrafod bron bob un disgybl er mwyn iddynt allu ysgrifennu'n annibynnol i'w llawn botensial.
2	Datblygu sgiliau mathemateg pen bron bob un disgybl er mwyn sicrhau bod ganddynt sylfaen rhifyddol effeithiol.
3	Datblygu cariad at ddarllen yn yr iaith Gymraeg, er mwyn cryfhau ystod geirfa disgyblion ar draws yr ysgol.
4	Parhau i fireinio cwricwlwm yr ysgol gyda ffocws ar ddatblygu'r Celfyddydau Mynegiannol, wrth ddefnyddio'r ardal allanol yn effeithiol ar draws yr ysgolion.

CWRICWLWM AC ASESU

Ein nod fel ysgol yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar, diogel fel bo pob plentyn, beth bynnag ei allu, yn cyrraedd ei lawn potensial. Mae'n angenrheidiol i blant gael eu haddysgu a'u datblygu'n emosiynol, cymdeithasol, corfforol moesol a deallusol.


Y mae gan yr ysgol hefyd, bolisi cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r gwersi a addysgir pan fydd cyfle. Yn dilyn Deddf Addysg 1998 a'r newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf, y mae'r ysgol yn llunio ac yn diwygio polisïau i egluro sut y diwellir y gofynion.

Traciwn gynnydd disgyblion trwy gynnal cyfarfodydd cynnydd tymhorol yn ogystal â defnyddio ein system daenlen mewnol, asesir cynnydd plentyn ymhob rhan o'i waith ac, os oes angen, cysylltir â rhieni.

Trwy ddefnyddio dull dysgu sydd wedi ei seilio ar themâu, mae ein Cwricwlwm yn sicrhau bod pob unigolyn yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned ein hysgol. Mae'r Cwricwlwm yn gytbwys, perthnasol a gwahaniaethol ac yn eang ei sylfaen. Mae'r 4 diben wrth wraidd ein Cwricwlwm yma o fewn Ysgol Bancffosfelen.

Ein nod yw rhoi'r cyfle i bob unigolion ddatblygu i fod:

- yn ddinasyddion Egwyddorol a Gwybodus
- yn unigolion Iach a Hyderus
- yn gyfrannwr mentrus a chreadigol
- yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog



Mae holl waith y dysgwyr bellach yn seiliedig ar y chwe maes dysgu a phrofiad:

1. Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
2. Mathemateg a Rhifedd
3. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
4. Dyniaethau
5. Iechyd a Lles
6. Celfyddydau Mynegiannol.

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'u diwylliant a'u hunaniaeth Gymreig. Mae'r Cyngor Eco/Ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn chwilio am ffyrdd y gall arferion sydd yn garedig i'r amgylchedd gael eu hymgorffori i fywyd bob dydd yr ysgol. Rhan holl bwysig o'r ysgol yw llais y plentyn ac maent wedi bod yn casglu syniadau a gweithredu arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn mynychu Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth ar gyfer eu haddysg uwchradd. Cynllunnir gweithgareddau yn ystod Blynyddoedd 5 a 6 ynghyd â nosweithiau rhieni i hwyluso'r broses pontio.

CYSYLLTIADAU GYDA'R GYMUNED A PHROFIADAU 2025 – 2026

Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gymuned leol yn ogystal â'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymuned yr ysgol, pentref Bancffosfelen ynghyd â gweddill Cymru a thu hwnt.

Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys:

Holiaduron/Arolygon:

Lles disgyblion, chwaraeon, rhieni/gofalwyr, y Gymraeg, a phrosesau nosweithiau rhieni.

Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r GIG:

Mae PC Ali wedi ymweld â'r ysgol ar sawl achlysur i drafod pynciau sy'n briodol i oedran y disgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen, e.e. **Gwrth-fwllo, Diogelwch Seiber**.

Mae Elinor o'r **Gwasanaeth Tân** wedi cynnal gwasanaethau ysgol ar themâu Calan Gaeaf a Noson Tân Gwylt.

Mae nyrs wedi ymweld â disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i rannu gwybodaeth am y glasoed.

Cynhaliwyd **imiwneiddiadau ffliw** yn yr ysgol, farnais fflworid, ynghyd â phrofion sgrinio ar gyfer plant oed Derbyn, yn ystod y flwyddyn.

Ymwelwyr eraill:

Ymwelodd y Tîm Ymgysylltu â Phresenoldeb â'r ysgol i gynnal gweithdai **Miss School: Miss out!** gyda disgyblion Blynyddoedd 5 a 6.

Ymwelodd y **Parchedig Emyr Williams** â'r ysgol i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan, gan rannu straeon a gwersi pwysig er mwyn cryfhau gwerthoedd ac ethos yr ysgol.

Ymwelodd Alison Treharne â'r ysgol am dymor i gynnal sesiynau **Cerdded drwy'r Beibl** gyda Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6.

Cyngherddau a pherfformiadau'r ysgol:

- Cynhaliwyd sioe Nadolig '**Nadolig ar draws y Byd**' yn Neuadd Bentref Bancffosfelen a Chrwbin. Roedd yn ddiwrnod hynod lwyddiannus o berfformiadau!
- Cynhaliwyd **Gwasanaeth Ymadawyr yn yr ysgol** i nodi diwedd cyfnod i'n disgyblion Blwyddyn 6.

Digwyddiadau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (PTA):

- Noson Cwis a Bingo
- Ffair Nadolig
- Ffair Haf
- Llawer iawn o rafflau!

Cynhaliodd yr ysgol ei Ffair Lyfrau flynyddol **Scholastic**, gan godi dros £200 tuag at lyfrau i'r ysgol. Diolch i'r staff am eu cymorth gyda'r llwyddiant!

Cystadlodd yr ysgol yn **Eisteddfod Gymunedol Bancffosfelen**.

Dathliadau a diwrnodau pwysig

Dathlodd yr ysgol nifer o ddigwyddiadau a dyddiadau pwysig drwy gydol y flwyddyn:

- Diwrnod Dathlu Roald Dahl
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Diwrnod Shwmae/Su'mae!
- Diwrnod y Cofio
- Diwrnod Siwmpwr Nadolig
- Wythnos Gwrth-fwllo
- Diwrnod Santes Dwynwen
- Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Ddiogel
- Dydd Gŵyl Dewi
- Diwrnod y Llyfr
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – gan dathlu cyflawniadau Mrs Ann Davies AS
- Diwrnod y Ddaear
- Pythefnos Masnach Deg
- Plant mewn Angen
- Diwrnod Trwynau Coch

Profiadau drwy gydol y flwyddyn academiaidd:

- Cynnal **Caffi Coffi a Chlonc** bob tymor, gan groesawu'r gymuned ehangach i'r ysgol am baned, sgwrs a chyfle i siarad Cymraeg gyda'r disgyblion wrth chwarae gemau a chymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Ymwelodd Blynnyddoedd 3 i 6 â Pherfformiad Cyngerdd Peripatetig yn Neuadd y Gwendraeth.
- Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 6 â'r Neuadd Bentref a helpu i godi arian yn ystod Bore Coffi Macmillan.
- Cystadlodd Blynnyddoedd 5 a 6 yng nghystadleuaeth Bêl-droed **Actif Sir Gâr**.
- Cystadlodd Blynnyddoedd 5 a 6 yn Nhlwrnamaint Rygbi'r **Urdd** yn Nantgaredig.
- Cystadlodd Blynnyddoedd 3 a 4 yn Nhlwrnamaint Rygbi Tag yr **Urdd** yn Nantgaredig.
- Cafodd Blynnyddoedd 5 a 6 ddiwrnodau pontio gyda **Maes y Gwendraeth**.

- Ymwelodd Blynyddoedd 3 i 6 â Chanolfan Hamdden Caerfyrddin ar gyfer gwersi nofio.
- Ymwelodd y Meithrin i Flwyddyn 6 â Neuadd Pontyberem i wyllo'r pantomeim **Aladdin**.
- Mwynhaodd y Meithrin i Flwyddyn 2 fore gyda **Martin Geraint** yn ystod ei Jambori ffarwel!
- Derbyniodd Llysgenhadon Chwaraeon sesiynau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn.
- Cynrychiolodd disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol yng **Nghwis Dim Clem**, a gynhaliwyd gan **Fenter Cwm Gwendraeth ac Elli** yn Ysgol Pumheol.
- Cystadlodd Blynyddoedd 5 a 6 yng nghystadleuaeth Rygbi'r **Scarlets** yn **CF Pontyberem**.
- Cystadlodd Blynyddoedd 3 a 4 yng nghystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd.
- Ymwelodd holl ddisgyblion â **Fferm Folly** fel rhan o'u thema – **o bedwar ban byd!**
- Ymwelodd Blynyddoedd 5 a 6 â **Llangrannog** am ymweliad preswyl o ddwy noson.
- Cefnogodd y Meithrin i Flwyddyn 2 ddisgybl yn yr ysgol a oedd yn perfformio mewn sioe
- Cystadlodd Blynyddoedd 3 i 6 mewn cystadlaethau Pêl-droed a gynhaliwyd gan yr Urdd ym Mhontyberem.
- Ymwelodd y Meithrin i Flwyddyn 6 â **Techniquiest** fel rhan o'u thema – **Sut mae'r byd yn gweithio?**
- Cystadlodd disgyblion y Meithrin a'r Derbyn yn **Mabolgampau Menter Cwm Gwendraeth ac Elli**.
- Gwylodd Blynyddoedd 3 i 6 y ddrama **"Dosbarth Miss Prydderch a Lleidr y Lleisiau"** yn y Lyric yng Nghaerfyrddin – cafwyd hwyl gan bawb (gan gynnwys y staff)!
- Ymwelodd Blwyddyn 6 â **Thŷ'r Senedd yn San Steffan** ar gyfer taith breifat gyda Mrs Ann Davies AS. Dringon nhw uchelfannau **London Eye** ac aros yn eiddgar i weld aelod o'r teulu brenhinol y tu allan i **Balas Buckingham**. Ond uchafbwynt y diwrnod, wrth gwrs, oedd **McDonald's!**
- Cymerodd y Meithrin i Flwyddyn 6 ran yn **Niwrnod Chwaraeon blynyddol Mynydd Mawr** – da iawn bawb!

DATGANIAD O GYLLID (EBRILL 2026)

Gwelir isod gwariant yr ysgol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r costau'n cynnwys cynhaliaeth staffio, cynnal a chadw'r adeilad a thalu am gyflenwad o adnoddau cwricwlaidd. Ni wnaed taliad ar gyfer treuliau teithio neu gynhaliaeth i'r un aelod o'r Corff Llywodraethu'r ysgol a ni dderbynnir unrhyw roddion.

GWARIANT

Disgrifiad	£
Costau staff – Athrawon	207,644
Costau staff – Staff eraill	95,698
Costau atgyweirio, cynnal a chadw (adeilad)	6,551
Costau ynni	16,547
Rhent a chyfraddau (yn cynnwys dŵr)	4,802
Costau eraill yn gysylltiedig gydag adeilad	1,397
Costau yn gysylltiedig gyda thrafnidiaeth	560
Costau pen	5,680
Costau rhedeg eraill (trwyddedau, argraffu, gweinyddol, yswiriant)	3,450
Cytundebau Lefel Gwasanaeth	23,328
Cyfanswm	365,657

INCWM

Disgrifiad	£
Dyraniad Ariannu Teg (Ebrill 2025)	287,913
Grantiau	43,304
Ffioedd a chostau adferadwy	943
Cyfraniadau gan rieni	45
Yswiriant Absenoldeb Staff	4,972
Cyfanswm	337,177

Diffygiad ar 01/04/2025: £34,444

Gwariant: £365,657

Incwm: £337,177

Diffygiad ar 31/03/2026: £62,924

TYMHORAU A GWYLIAU 2026 – 2027

Tymor	Tymor yn dechrau	Hanner tymor	Diwedd y tymor
Haf 2026	Dydd Llun 13 Ebrill	Dydd Llun 25 Mai - Dydd Gwener 29 Mai	Dydd Llun 20 Gorffennaf
Hydref 2026	Dydd Mercher 2 Medi	Dydd Llun 26 Hydref - Dydd Gwener 30 Hydref	Dydd Gwener 18 Rhagfyr
Gwanwyn 2027	Dydd Llun 4 Ionawr	Dydd Llun 8 Chwefror - Dydd Gwener 12 Chwefror	Dydd Gwener 19 Mawrth
Haf 2027	Dydd Llun 5 Ebrill	Dydd Llun 31 Mai - Dydd Gwener 4 Mehefin	Dydd Mawrth 20 Gorffennaf

DIWRNODAU HMS 2026 – 2027

Dydd Mawrth Medi'r 1af (1/9/26)

Dydd Mercher Medi'r 2ail (2/9/26)

Dydd Gwener Hydref y 23ain (23/10/26)

Dydd Llun Ionawr y 4ydd (4/1/27)

Dydd Llun Gorffennaf y 19eg (19/7/27)

Dydd Mawrth Gorffennaf yr 20fed (20/7/27)

